# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2018

Amser: 14.30 - 16.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4491

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Arweiniodd y Cadeirydd y Pwyllgor wrth groesawu Mandy Jones AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

**2.1 SL(5)163 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2017**

**2.2 SL(5)164 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017**

**2.3 SL(5)169 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018**

**2.4 SL(5)167 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018**

**2.5 SL(5)168 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio i Atodlen 5) Rheoliadau 2018**

**2.6 SL(5)171 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

**2.7 SL(5)172 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

**3.1 SL(5)170 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau a nodwyd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i fynegi ei siom yn ymateb y Llywodraeth.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ynghylch: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### 4.2 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Bil yr UE (Ymadael):

Nododd y Pwyllgor y datganiad.

### 4.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch: SL(5)150 Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i'w ystyried ymhellach mewn sesiwn breifat.

### 4.4 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru:Gwelliannau i Fil Masnach y DU a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y datganiad.

### 4.5 Ail gyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar adael yr Undeb Ewropeaidd, 18 Ionawr 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad gan y Fforwm.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Nodyn cyngor cyfreithiol: ystyried is-ddeddfwriaeth heblaw offerynnau statudol

Trafododd y Pwyllgor y cyngor.

## 7 Y Pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth

Trafododd y Pwyllgor y papur.

## 8 SICM(5)2 - Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017: Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a'i gytuno.

## 9 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a'i gytuno.

## 10 Llais Cryfach i Gymru: Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i ystyried fersiwn derfynol yn y cyfarfod nesaf.